

Ymateb i Arolwg Crest ar Reoli Perfformiad

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn dangos yn glir ddatgysylltu rhwng arweinwyr yr heddlu a swyddogion gweithredol. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod diwylliant o dargedau a thablau cynghrair dal yn bodoli. Mae'n ymddangos yn bennaf ar lefelau rheolwyr canol.

Ni ddylwn synnu'n fawr at y canlyniadau hyn, ac ni ddylem geisio gweld bai. Maen nhw'n gynnwys blynyddoedd o ymddygiad a ddysgwyl. Yr hyn y mae'r canfyddiadau'n ein hatgoffa ni ohono yw bod ymddygiad yn debygol o gymryd blynyddoedd i newid.

Gwn fod y Prif Gwnstabl a'i dîm yn gyson atgyfnerthu'r neges am 'wneud y peth iawn, nid dim ond gwneud pethau'n iawn'. Rwy'n adleisio hynny. Mae'r cyhoedd eisiau swyddogion sy'n poeni am gyfiawnder, nid biwrocratiaid sy'n canolbwyntio ar rifau.

Mae fy ymagwedd tuag at ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yn canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer dioddefwyr a chynyddu hyder y cyhoedd mewn plismona a'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol ehangach.

Rydyn ni'n defnyddio ffigurau, ond nid targedau. Dydw i ddim wedi sefydlu unrhyw dargedau, ac rwyf wedi ei gwneud hi'n glir i'r Prif Gwnstabl fy mod i'n barod i weld cynnydd yn nifer y troseddau sy'n cael eu cofnodi os yw hynny'n adlewyrchu realiti'n well.

Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl bod troseddau'n cael eu cofnodi'n gywir/ Mae gan swyddogion hawl i deimlo'n hyderus ynghylch adrodd newyddion drwg.

Bydd gwelliannau o ran technoleg, megis cyflwyno plismona digidol, yn helpu i wella effeithlonrwydd gweithredol ac yn sicrhau bod pob digwyddiad a throedd yn cael eu cofnodi'n amserol a moesegol.

Mae'r ffigurau hyn yn dystiolaeth o'r hyn rydyn ni wedi amau ers sbel. Ond maen nhw hefyd yn nodi hyder bod ymdrech yn cael ei wneud i symud i ffwrdd o drefn sy'n seiliedig ar dargedau.

Dylai'r ymchwil hwn annog newid pellach. Hefyd, dylai sicrhau swyddogion a staff a ymatebodd bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed.

Mae gennym fwy i'w wneud i hyrwyddo diwylliant sydd ddim yn cael ei yrru gan dargedau. Rwy'n bwriadu defnyddio'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn i gyfrannu at syniadau ynghylch effeithiolrwydd rheoli ledled yr heddlu.

Rwy'n bwriadu adolygu cynnydd yn erbyn canfyddiadau cychwynnol yr arolwg ddechrau 2016.

Christopher Salmon, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys